*Priodasau*
*Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru*

# Weddings
# St Fagans: National History Museum



# *Llongyfarchiadau*
# Congratulations

Yma yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru rydyn ni'n arbenigo mewn cadw a chreu atgofion, ac rydym am eich cynorthwyo i drefnu diwrnod priodas bythgofiadwy i'ch teulu, eich ffrindiau ac i chi. Mae ei gerddi ffurfiol cain, ei llwybrau coedwig a'i hadeiladau hanesyddol, yn sicrhau taw'r Amgueddfa yw un o leoliadau priodas mwyaf rhamantus ac unigryw Cymru.


Ers agor ei drysau ym 1948, mae Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru bellach yn un o amgueddfeydd awyr agored gorau'r byd. Symudwyd dros ddeugain o adeiladau hanesyddol yma i ddangos i chi sut oedd y Cymry'n byw, yn gweithio ac yn addoli drwy'r oesoedd.
Rydym wedi'n trwyddedu i gynnal seremonïau priodas sifil a derbyniadau mewn dau leoliad yn yr Amgueddfa – maenordy Elisabethaidd hyfryd Castell Sain Ffagan ac adeilad urddasol Sefydliad y Gweithwyr Oakdale.
Saif yr Amgueddfa nepell o sawl gwesty a thai gwely a brecwast, ac mae yma fynediad hwylus i drafnidiaeth.

**St Fagans: National History Museum specialises in keeping and creating memories, and we will help to make your wedding day truly memorable, for you, your family and friends. With its elegant formal gardens, woodland walks and historic buildings, the Museum is truly one of the most romantic and unique wedding settings in Wales.**

**Since it opened in 1948, St Fagans has become one of the world's best open-air museums. Over 40 original historic buildings have been moved here to show you how the people of Wales have lived, worked, played and worshipped through the ages. Civil wedding ceremonies are licensed in two locations at the Museum – the beautiful Elizabethan St Fagans Castle and the magnificent Oakdale Workmen's Institute. The Museum is conveniently located within a stone's throw from several hotels and B&Bs and enjoys excellent transport links.**






H685



# *Castell Sain Ffagan*
# St Fagans Castle

Mae Castell Sain Ffagan yn adeilad rhestredig Gradd 1, ac yn lleoliad anhygoel ar gyfer seremoni yn un o'r maenordai Elisabethaidd gwychaf yng Nghymru. Ar gyfer y derbyniad, gallwch ddewis cyfuno'r Castell â phabell neu â Sefydliad y Gweithwyr Oakdale ar gyfer hyd at 140 o westeion.

Lleoliad cartrefol i hyd at 40 o westeion sydd yn y Brif Neuadd a'r Ystafell Fwyta. Addurnwyd y Neuadd yn yr arddull Fictoraidd crandiaf, gyda waliau o dderw tywyll a lle tân wedi'i gerfio'n gywrain ag arno arfbais y teulu. Cwblhawyd yr Ystafell Fwyta ym 1896. Cai'r cyrsiau eu gosod ar y seld a byddai bwtler a gweision y teulu yn gweini arnynt. Mae digonedd o leoliadau tynnu lluniau i'w dewis, ac ymhlith gerddi cadwedig cain y Castell mae'r Ardd Eidalaidd, yr Ardd Teim, pyllau pysgod, ffynhonnau, llwyn merwydd a Gardd Rosod odidog.

**As a Grade 1 listed building, and recognised as one of Wales's finest Elizabethan manor houses, St Fagans Castle is a breathtaking setting for your ceremony. For your reception, you can combine the Castle with a marquee or with Oakdale Workmen's Institute for up to 140 guests.**

**The Castle's Main Hall and Dining Room is an intimate venue for up to 40 guests. The Hall was the height of Victorian style, decorated in dark oak with an intricately carved fireplace bearing the family coat of arms. The Dining Room was completed in 1896. Dishes were placed on a sideboard and served to the table by the family's butler and footmen.When it comes to your photographs, you'll be spoilt for choice. The Castle's elegant landscaped gardens include the Italian Garden, the Thyme Garden, fish ponds, fountains, a mulberry grove and an exquisite Rose Garden.**

# *Sefydliad y Gweithwyr Oakdale*
# Oakdale Workmen's Institute

Os am gynnal seremoni neu dderbyniad mewn adeilad sy'n frith o hanes Cymru, nid oes lleoliad gwell na Sefydliad y Gweithwyr Oakdale. Gall y Neuadd Gyngerdd ar y llawr cyntaf ddal 90 o westeion ar gyfer derbyniad, ac mae yno lawr dawns a llwyfan pwrpasol i chi ddawnsio tan yr oriau mân.

Fe'i hadeiladwyd ym 1916 cyn cau ym 1987 ac ailagor yn yr Amgueddfa ym 1995. Roedd y 'Stiwt' yn adeilad cyffredin yn nhrefi diwydiannol Cymru ac wrth galon bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol y gymuned. Byddai gweithwyr yn rhoi cyfran o'u cyflog mewn cronfa er mwyn talu am y gwaith o adeiladu a chynnal y fenter. Cymuned estynedig Glofa Oakdale yn Sir Fynwy fyddai Sefydliad y Glowyr Oakdale yn ei gwasanaethu.

**For a truly authentic piece of Welsh history, there's nothing like Oakdale Workmen's Institute for your ceremony. For your reception, the Concert Hall on the first floor can accommodate up to 90 guests. Its sprung floor and stage mean you can dance the night away in style.**

**Built in 1916, the Institute closed in 1987 and re-opened at the Museum in 1995. 'Institutes' were once a common feature of industrial Wales, at the heart of community social, educational and cultural life. Miners gave a portion of their wage into a fund to pay for their construction and running. Oakdale Workmen's Institute served the population based around Oakdale Colliery in Monmouthshire.**













# *Arlwyo*
# Catering

Bydd priodas yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yn brofiad unigryw a chofiadwy a dylai bwydlen yr achlysur hefyd adlewyrchu pwysigrwydd y diwrnod. Mae tîm cogyddion proffesiynol Elior, ein harlwywyr profiadol, wedi creu bwydlen sy'n newid gyda'r tymhorau ac yn defnyddio'r cynhwysion lleol gorau er mwyn creu cyfuniadau blas rhagorol wedi'u cyflwyno'n gelfydd.

Gallwn addasu'r fwydlen fel y mynnoch gan greu bwydlenni personol yn cynnwys eich hoff fwydydd neu ddanteithion sy'n tanio atgofion ar y diwrnod mawr. Gallwn gynnig amrywiaeth gynhwysfawr o winoedd a chwrw fydd yn ategiad perffaith i'ch bwydlen ac yn sicrhau pryd i'w gofio.

**A wedding at St Fagans: National History Museum will be a unique and memorable experience. The menu for your special occasion should resonate in the same way. The team of professional chefs at Elior, our in - house catering experts, has created an evolving seasonal menu that incorporates the finest, locally sourced ingredients that deliver both breathtaking taste combinations and exquisite presentation.**

**The menu is entirely adaptable and bespoke menus can be created to include your favourite ingredients and meaningful dishes for this most special of days. We offer a comprehensive range of wines and beers that have been perfectly matched to your chosen menu to complete an unforgettable dining experience.**

# *Prynhawn Plu*
# Hen Afternoons

Mae Sain Ffagan yn lleoliad delfrydol ar gyfer parti plu perffaith. Beth am fwynhau prynhawn creadigol mewn gweithdai byntin neu garlantau, neu ymlacio mewn sesiwn drin gwallt ac ymbincio. Gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu i fwynhau te prynhawn blasus o frechdanau a theisenni, tebot cynnes o de a gwydraid o win i ddathlu.

**St Fagans is the perfect venue for a stylish hen party. Enjoy a creative crafty afternoon of bunting or, garland making or spoil yourself with a vintage hair and make-up session. Treat your family and friends to a delicious afternoon tea of sandwiches and cakes, a nice pot of tea and a glass of bubbly.**



# *Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau*
# National Museum Cardiff and the National Waterfront Museum

Gall Amgueddfa Cymru gynnig dau adeilad rhagorol arall sydd wedi'u trwyddedu'n llawn i gynnal seremonïau sifil a derbyniadau.

Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yng nghanol un o ganolfannau dinesig mwyaf gosgeiddig Ewrop. Yn yr orielau cewch gip ar arddangosfeydd hanes natur a'r Amgueddfa Gelf Genedlaethol. Mewn adeilad hynafol soffistigedig a llawn steil bydd yr awyrgylch yn drydanol a bydd cyfle am luniau gaiff eu trysori am byth.


Mewn adeilad heb ei ail ar Farina Abertawe mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn lleoliad arbennig ar gyfer priodasau. Cynhaliwch y seremoni yn ystafell llawn atmosffer Oriel y Warws neu ar Falconi'r Marina, cyn tynnu lluniau bythgofiadwy yng Ngardd yr Iard a mwynhau derbyniad dan do gwydr Neuadd Weston.

**Amgueddfa Cymru – National Museum Wales also offers two more exceptional venues, both fully licensed for civil ceremonies and receptions.**

**National Museum Cardiff is situated in one of Europe's most impressive civic centres. The Museum includes displays of natural history and Wales's new National Museum of Art. This historic environment lends an atmosphere of real style and sophistication and provides opportunities for photographs you will treasure forever.**

**The National Waterfront Museum, in its unrivalled waterfront location overlooking Swansea Marina, offers a superb venue for weddings. Choose from the atmospheric Warehouse Gallery or the Marina Balcony for a ceremony, followed by photographs in the Courtyard Garden and reception in the glass-canopied Weston Hall.**




shop





**Lluniau/Photography:**
My Big Day Photos - www.mybigdayphotos.co.uk - tudalen y cyflwyniad, tud. 2 dde uchaf a gwaelod chwith, tud. 12 / Introduction page, pg 2 top right and bottom left, pg 12
Aled Garfield Photography - www.aledgarfieldphotography.co.uk - tud. 5 / pg 5
Carwyn Lloyd Jones - www.carwynlloydjones.co.uk - tud. 9 / pg 9
Always and Forever Media Photography - www.alwaysandforevermedia.com - tud. 11 chwith / pg 11 left hand side image
Aga Tomaszek Photography - www.agatomaszek.com - tud. 11 dde uchaf / pg 11 top right
Marc Smith Photography - www.marcsmithphotography.com - tud. 11 gwaelod dde / pg 11 bottom right

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru
St Fagans: National History Museum
Caerdydd / Cardiff
CF5 6XB

(029) 2057 3500 / 3416
priodasau@amgueddfacymru.ac.uk
weddings@museumwales.ac.uk
www.amgueddfacymru.ac.uk
www.museumwales.ac.uk